Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Cinmeirch
# Llanrhaedr yng Nghinmeirch
# Dinbych
# LL16 4NL

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Cinmeirch

Mae Ysgol Bro Cinmeirch rhwng Llanrhaeadr a Phentref Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, rhyw dair milltir o dref Dinbych. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal leol ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Ddinbych.

Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 85 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 8 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 4 dosbarth oed cymysg.

Tua 3% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol. Mae lleiafrif (44%) o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 14% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2008 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae cynlluniau'r athrawon yn gosod ffocws ardderchog ar ddatblygu medrau llythrennedd a chreadigol disgyblion ynghyd â datblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r addysgu yn dda gyda'r staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda iawn erbyn Blwyddyn 6, yn arbennig yn eu medrau ysgrifennu a'u medrau llafar Cymraeg. Mae bron pob un yn dangos agwedd bositif tuag at eu gwaith. Maent yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd.

Mae arweinyddiaeth sicr y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol priodol ac mae'r llywodraethwyr yn herio a chefnogi'r ysgol yn effeithiol. At ei gilydd, trwy ddefnyddio ystod o weithgareddau arfarnu addas, mae gan arweinwyr wybodaeth briodol am safonau ac addysgu.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arsylwadau gwersi fel rhan o'u trefniadau hunanarfarnu a gwella ansawdd

A2 Rhannu arferion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol a cynllunio'n fwriadus er mwyn herio disgyblion mwy abl yn gyson gan ddarparu gweithgareddau addas ar eu cyfer

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn ei gwahodd i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith i'w lledaenu ar wefan Estyn. Bydd yr astudiaeth achos yn seiliedig ar gynllunio cwricwlwaidd i ddatblygu ymwybyddiaeth diwylliannol a chreadigol y disgyblion tra'n gwella eu medrau llythrennedd.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i, neu'n uwch na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda iawn erbyn Blwyddyn 6. Mae'r ychydig o'r disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau gwella. Ar y cyfan, mae llawer o'r disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da, er nad yw ychydig ohonynt yn cyflanwni hyd eithaf eu gallu ac yn cwblhau gwaith o safon uchel yn ddigon cyson.

Trwy'r ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu i safon uchel, gan ddatblygu medrau llafar Cymraeg yn gyflym. Nodwedd arbennig yw'r eirfa gyfoethog a'r cywair iaith gadarn sydd gan y rhan fwyaf. O ganlyniad, mae cynnydd eithriadol gan lawer yn eu medrau llafar erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r cynnydd arbennig iawn a wna rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu medrau ysgrifennu dros amser. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae bron pob disgybl yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau gan ddechrau defnyddio cystrawen briodol, a geirfa sy'n gysylltiedig â'r thema. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac i safon dda. Maent yn amrywio brawddegau yn synhwyrol ac yn cyfoethogi eu gwaith gydag ystod gynhwysfawr o ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau, er enghraifft wrth ysgrifennu am antur 'Owain a'r dinosoriaid'. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn atalnodi'n effeithiol er mwyn rhoi bri ar eu hysgrifennu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn strwythuro eu brawddegau yn effeithiol gan ddefnyddio paragraffau yn synhwyrol i gyflwyno'r prif syniad a manylion perthnasol. Pan fyddant yn cael y cyfle, mae'r disgyblion mwyaf galluog yn ysgrifennu'n ddychmygus ac yn effeithiol i gynulleidfa amrywiol, gan wneud hynny'n estynedig ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg coeth.

Mae cyflwyniad a llawysgrifen rhan fwyaf y disgyblion o safon ardderchog a dangosant barch amlwg tuag at eu gwaith.

Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn trin a thrafod llyfrau yn hyderus ac mae eu medrau darllen cynnar yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i fynd i'r afael â geiriau newydd. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb mewn darllen ac yn gallu dwyn i gof ac ailddweud cynnwys o destunau gwahanol yn hyderus, er enghraifft wrth greu cartŵn gyda deunyddiau er mwyn crynhoi stori'r Gryffalo. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn rhugl, gan ymateb yn ystyrlon. Defnyddiant eu medrau darllen Cymraeg a Saesneg yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol mewn sawl maes ar draws y cwricwlwm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn hyderus i ddatrys problemau yn eu gweithgareddau. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn casglu, dadansoddi a

chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar ystod briodol o fedrau rhifedd. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp a thrin data gyda chywirdeb da. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf graffiau gwahanol mewn pynciau fel gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth. Gwna'r disgyblion ddefnydd priodol o'u medrau i ddatrys problemau mewn cyd-destun bywyd bob dydd.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mewn gwersi TGCh, maent yn defnyddio amrywiol galedwedd a meddalwedd yn frwdfrydig. Mae llawer yn cymhwyso'u medrau TGCh yn briodol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus, er enghraifft i egluro eu canfyddiadau o waith ymchwil am eu pentref. Maent yn cofnodi gwybodaeth ar fas data yn hyderus gan ei holi yn synhwyrol am wybodaeth benodol, er enghraifft am fwystfilod dychmygus yn ymwneud â'r thema 'y byd nad yw'n bod'.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn. Maent yn ymddwyn yn aeddfed mewn gwersi, o amgylch yr ysgol, ac wrth symud rhwng dosbarthiadau ac yn ystod gweithgareddau, fel gwasanaethau ysgol gyfan. Mae'r rhan fwyaf yn dangos hyder ac aeddfedrwydd yn unol â'u hoed, er enghraifft yn y ffordd y maent yn cyfathrebu ag ymwelwyr ac oedolion. Maent yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd.

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn ymwybodol o'r pwysigrwydd i gadw'u hunain yn saff, er enghraifft wrth ymchwilio ar y we, ac ynglŷn â diogelwch ar y ffordd. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o'r angen i wneud dewisiadau iach wrth fwyta ac yfed. Maent yn llawn egni ac yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

Mae disgyblion yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, fel bod yn aelodau o'r cyngor ysgol neu'r pwyllgor eco, cyfeillion ar y buarth, ac wrth warchod gardd yr ysgol yn ofalus. Mae'r 'ffrindiau ffeind', sef syniad sydd wedi ei gyflwyno gan y cyngor ysgol, yn ddull llwyddiannus o annog disgyblion i fod yn llai dibynnol ar oedolion i ddatrys mân anghydfod.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n hyderus ac effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft yn annibynnol, mewn grwpiau bychain ac mewn dosbarthiadau cyfan. Maent yn dangos parch tuag at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy gymryd eu tro, caniatáu i bobl eraill siarad neu wrth fod yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw. Mae bron pob un yn dangos agwedd bositif tuag at eu gwaith. Maent yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau yn briodol. Drwy'r ysgol, mae gan ddisgyblion ddylanwad amlwg ar beth y maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymroi i brofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd, ac maent yn aml yn cyfrannu syniadau a chwestiynau creadigol ar gyfer gweithgareddau sydd ynghlwm â'r thema, er enghraifft am y 1960au.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd y cyfle i ddatblygu fel dinasyddion cydwybodol. Er enghraifft, maent yn hel arian at achosion da ac yn cydweithio â phobl â dementia

drwy gynllun celf. Maent hefyd wedi llwyddo i gael offer defnyddiol i'r ysgol a'r gymuned, fel y diffibriwlydd. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd, er enghraifft drwy nifer o chwaraeon, ac eisteddfodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r addysgu yn dda gyda'r staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn. Mae cyd-berthynas adeiladol a chefnogol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion. Trwy fod yn fodelau ieithyddol hynod effeithiol, mae'r athrawon yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, gan bwysleisio cywirdeb a rhuglder. Mae hon yn elfen gref ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae dylanwad cadarnhaol iawn ar ddatblygiad ieithyddol y disgyblion a'u safonau Cymraeg.

Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae'r addysgu yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd disgyblion. Mae'r ystod eang o brofiadau, ynghŷd â disgwyliadau clir yr athrawon, yn galluogi llawer o ddisgyblion i gynhyrchu gwaith o safon uchel iawn, yn enwedig o ran eu medrau ysgrifennu. Gan amlaf, mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau effeithiol i gynnal diddordeb y disgyblion. Mewn ychydig o achosion lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ymestyn y disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cynnydd digon cyson dros amser.

Mae'r athrawon yn darparu adborth effeithiol i'r disgyblion, ac yn cynllunio cyfleoedd iddynt fyfyrio ar y sylwadau, ac ailddrafftio elfennau o'u gwaith, lle bo'n briodol. Mae disgyblion yn hunanasesu eu gwaith yn addas ac yn asesu gwaith eu cymheiriaid yn synhwyrol. Er enghraifft, mae bron bob disgybl ym Mlwyddyn 5 a 6 yn craffu ar waith eu cymheiriaid yn fedrus, gan gynnig awgrymiadau ar gyfer datblygu'r gwaith ymhellach.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol, ac yn cynnwys y disgyblion yn y broses o osod y trywyddau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae gan y disgyblion berchnogaeth o'u dysgu, a brwdfrydedd tuag at eu gwaith. Mae'r cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm ac addysg grefyddol o safon dda, ac wedi eu teilwra'n fedrus i fynd i'r afael ag anghenion penodol yr ysgol. Maent yn cael eu defnyddio'n hylaw ac effeithiol gan staff ac yn cael eu datblygu'n gyson ac yn grefftus er mwyn bodloni anghenion y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Maent yn cynnwys nifer o elfennau creadigol ac unigryw i'r ysgol, sydd, er enghraifft, yn cynnig ystod effeithiol o weithgareddau ynglŷn â'r ardal leol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn effeithiol iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn drwyadl. Mae'r cynllunio ar gyfer magu medrau siarad a gwrando disgyblion yn effeithiol ac yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol, gydag effaith gadarnhaol iawn ar gywirdeb iaith bron bob disgybl. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fynegi barn, a gwneud cyflwyniadau. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyffrous i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion mewn amrywiol ffurfiau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau cyflawniad. Mae'r cynllunio ar gyfer rhifedd a TGCh yn gadarn, sy'n arwain at gyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ddatblygu'r medrau hyn mewn cyd-destunau eang ar draws y cwricwlwm.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r adeilad a'r safle er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn y cyfnod. Maent, er enghraifft, yn defnyddio'r cae gerllaw i fynd i chwilio am y tylwyth teg wrth wreiddiau'r goeden fawr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae cynlluniau gwaith yr athrawon yn rymus ac yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn iawn o ddiwylliant, hanes a thraddodiadau eu cymuned leol a Chymru. Mae hyn yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol. Mae gan y cynlluniau ffocws ardderchog ar ddatblygu medrau llythrennedd a chreadigol disgyblion yn gydlynol, trwy astudio cymeriadau hanesyddol fel Hedd Wyn a Mari Jones. Mae athrawon yn defnyddio busnesau lleol, cerddorion, artistiaid, chwedlau a digwyddiadau hanesyddol Cymreig fel sbardun effeithiol iawn i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynlluniau unigryw a phwrpasol hyn yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn gwneud cyfraniad eithriadol at ddatblygu disgyblion sy'n wybodus iawn am Gymru ac yn arddangos dealltwriaeth a balchder gwirioneddol tuag at eu treftadaeth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydol a chreadigol y disgyblion hefyd yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gwahodd arbenigwyr yn rheolaidd i gydweithio â'r disgyblion a'r staff ar brosiectau penodol sy'n datblygu eu medrau mynegiannol fel animeiddio, cyfansoddi, sgriptio a chyfarwyddo yn dda iawn. Mae'r ysgol yn darparu cyfleodd rhagorol i ddisgyblion berfformio yn y gymuned ac ar lwyfannau cenedlaethol mewn eisteddfodau a chyngherddau. Mae hyn yn arwain at safonau uchel o hunanhyder ymysg llawer o ddisgyblion ac yn hyrwyddo cydweithio yn effeithiol.

Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb i'w hanghenion dysgu yn gynnar. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer asesu cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion, ac yn eu cymedroli a'u safoni'n drylwyr. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn defnyddio system olrhain cynnydd briodol i adnabod anghenion penodol disgyblion a darparu cymorth ychwanegol iddynt.

Mae staff yn derbyn cefnogaeth werthfawr gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn darparu rhaglenni ymyrraeth o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau ac unigolion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gadarn ac effeithiol gydag asiantaethau addysgol allanol ac mae'r staff yn troi at gefnogaeth a hyfforddiant arbenigol yn ôl y galw i ddiwallu unrhyw anghenion addysgol, emosiynol neu feddygol dwys. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn er mwyn adnabod disgyblion sy'n fwy abl. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol i herio'r disgyblion hyn yn ddigon cyson i'w galluogi i gyrraedd lefelau uwch ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol drefniadau llwyddiannus ar gyfer sicrhau bod rhieni'n chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant. Maent yn cwrdd yn rheolaidd â'r athrawon ac yn derbyn gwybodaeth fanwl am gynnydd a chyflawniad eu plant. O ganlyniad, maent yn gwybod beth sydd angen i'w plant ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sydd â threfniadau cadarn ar gyfer bodloni anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion bregus a'u rhieni. Mae'n trefnu nosweithiau arbennig ar gyfer teuluoedd ac aelodau'r gymuned leol i godi arian yn rheolaidd at waith elusennol a dyngarol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn dangos parch, gofal a chonsyrn tuag at ei gilydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwyedd yn briodol ac mae'r ysgol yn ei hyrwyddo drwy waith y pwyllgor eco a themâu'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a thraddodiadau byd-eang yn effeithiol trwy astudio bywyd ac arferion yng ngwlad Thai, Affrica a gwledydd yn Ewrop.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu dealltwriaeth ysbrydol a moesol disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn darparu cyfleodd cyson ar draws y cwricwlwm i alluogi disgyblion i ehangu eu hagweddau tuag at hawliau dynol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n unigolion moesegol a gwybodus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol priodol i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir, sy'n seiliedig ar hybu balchder y disgyblion yn eu cymuned ac yn eu Cymreictod. Mae'n cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ac yn modelu gwerthoedd cadarnhaol tuag at wella'r ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda am waith yr ysgol. Maent yn caffael gwybodaeth ddefnyddiol drwy adroddiadau cynhwysfawr y pennaeth a chyfarfodydd tymhorol gydag athrawon. Maent hefyd yn cynnal teithiau dysgu sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar flaenoriaethau penodol, er enghraifft y defnydd o ofod ac adnoddau. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn wybodus er mwyn herio a chefnogi'r ysgol ac wrth iddynt gyfrannu tuag at osod blaenoriaethau strategol ar ei chyfer. Mae gan yr ysgol drefniadau trwyadl ar gyfer sefydlu ac anwytho llywodraethwyr newydd ac, felly, maent yn datblygu yn eu rôl yn gyflym.

Mae arweinwyr yn canfod barn rhieni yn llwyddiannus drwy rannu holiaduron yn gyson. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r ymatebion gan drefnu ystod o nosweithiau dysgu amrywiol i ymateb i'r anghenion a nodir. Enghraifft dda o hyn yw'r sesiynau diweddar ar TGCh a drefnwyd ar gyfer rhieni.

At ei gilydd, mae gan arweinwyr wybodaeth briodol am safonau ac addysgu yn yr ysgol. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau addas ar gyfer arfarnu safonau ac addysgu gan gynnwys monitro cynllunio'r athrawon a chraffu ar lyfrau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer arsylwi gwersi yn ddigon ffurfiol. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddarlun digon cyflawn o ansawdd agweddau penodol yr addysgu, fel y diffyg her i bob disgybl.

Mae arweinwyr yn cydlynu'r gwaith o fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r ysgol yn llwyddiannus. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol cyfredol. Mae arweinwyr yn diffinio camau gweithredu yn glir

ac yn arfarnu effaith y gweithredu ar safonau disgyblion a’r ddarpariaeth yn rheolaidd. Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb am agwedd benodol ar waith yr ysgol ac maent, ar y cyfan, yn cyfrannu’n effeithiol at wella a chynnal safonau dysgu ac addysgu da. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn canolbwyntio’n effeithiol ar gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol. Mae ystod dda o gyfleoedd hyfforddiant addas ar gyfer staff, sy’n cynnwys mynychu cyrsiau a chyfrannu’n fuddiol tuag at rwydweithiau dysgu proffesiynol gydag ysgolion eraill. Fodd bynnag, nid yw staff yn cael cyfle i rannu eu harfer dda gydag eraill. Yn ogystal, cyfyng yw’r cyfleoedd ffurfiol iddynt elwa o arsylwi ar arfer dda o fewn yr ysgol ac mewn sefydliadau eraill.

Trwy waith partneriaeth effeithiol iawn, mae’r ysgol yn llwyddiannus wrth gefnogi nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Enghraifft dda o hyn yw’r bartneriaeth eithriadol sydd ganddi â Chyngor Celfyddydau Cymru drwy’r prosiect ‘Ysgolion Arweiniol Creadigol’. Drwy gydweithio ag artistiaid lleol, mae’r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu hyder a chreadigrwydd grŵp targed o ddisgyblion ynghyd â datblygu eu medrau TGCh drwy greu cyflwyniadau amlgyfrwng deniadol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau gan gynllunio’r gyllideb yn ofalus er mwyn diwallu’r blaenoriaethau strategol a nodir yn y cynllun datblygu ysgol. Mae’n gwneud defnydd priodol o’r grant datblygiad disgyblion. Mae’r staff cynorthwyol yn cyfrannu’n effeithiol tuag at gynnydd disgyblion gan weithredu fel modelau iaith raenus. O ganlyniad, mae disgyblion yn caffael iaith yn gyflym wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae’r adnoddau awyr agored a ddarperir ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen yn gyfoethog, ac mae athrawon yn gwneud defnydd effeithlon ohonynt er mwyn hybu annibyniaeth a chreadigrwydd disgyblion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2017